# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-03-08)

**Dyddiad: 7 Chwefror 2008**
**Amser: 9:00 – 11:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Irene James, Islwyn
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Ruth Wood, Cysylltydd Ymchwil, Canolfan Tyndall
Lorraine Frater, Rheolwr Ymchwil, Canolfan Cysylltiadau Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas, Prifysgol Cymru
Roger Wade, Cynghorydd Gwastraff a PARCH, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru
Peter Wilkinson, Cynghorydd Gwastraff a PARCH, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru
Mike Batt, Rheolwr Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Garbon yn Nghymru

### Eitem 1: Cyflwyno, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Lesley Griffiths a Karen Sinclair. Roedd Irene James yn dirprwyo dros for Karen Sinclair.

### Eitem 2: Yr ymchwiliad i leihau carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar ddiwydiant a chyrff cyhoeddus Papurau: SC(3)-03-08 (p.1) a (p.2)

2.1Croesawodd y Cadeirydd Ruth Wood o Ganolfan Tyndall a Lorraine Frater o Ganolfan Cysylltiadau Busnes, Atebolrwydd, Cynaliadwyedd a Chymdeithas, Prifysgol Cymru, i'r cyfarfod ac estynnodd wahoddiad iddynt roi'u cyflwyniadau ysgrifenedig. Holodd yr Aelodau y tystion.

2.2Cytunodd Ruth Wood i ddarparu gwybodaeth ar effaith cludiant awyr ar allyriadau $CO_{2.}$

2.3 Cytunodd Lorraine Frater i ddarparu ateb ysgrifenedig ar gwestiynau ynghylch i ba raddau y ceid gweithredu ar wobrwyo a chosbi'n ariannol yng nghyd-destun Cymru'n unig, a'r amserlen bosibl ar gyfer cyflwyno gofynion o'r fath mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Hefyd, cytunodd Ms Frater i ddarparu gwybodaeth ar y mathau o gamau y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru'u cymryd i fynd i'r afael ag allyriadau $CO_2$ o ddiwydiant a chyrff cyhoeddus.

### Eitem 3: Yr ymchwiliad i leihau carbon yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth ar ddiwydiant a chyrff cyhoeddus

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Roger Wade a Peter Wilkinson o Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru a Mike Batt o'r Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru, a'u gwahodd i roi'u cyflwyniadau ysgrifenedig. Holodd yr Aelodau y tystion.

3.2 Cytunodd Peter Wilkinson a Mike Batt i ddarparu eglurhad ysgrifenedig ynghylch beth yn union y gellid ei ddefnyddio aer gyfer treuliad anaerobig, ac a oedd bio-nwy'n ddarostyngedig i Dystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy.